Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Pwll Coch
# Lawrenny Avenue
# Caerdydd
# CF11 8BR

**Dyddiad yr arolygiad: 10 - 12 Mai 2011**

**gan**

**Dr David Gareth Evans**
**Arolygydd Cofnodol, o dan gontract i Estyn**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd a Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd fel y dywedwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Ysgol Gymraeg Pwll Coch yn 1996. Ym Medi 1999 symudwyd i adeilad newydd a gorffennwyd estyniad i'r ysgol yn 2006 ar gyfer yr adran Iau. Cyrhaeddodd ei llawn dwf yn ddwy ffrwd yn 2008. Mae talgylch yr ysgol yn eang ac yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd deheuol a gorllewinol dinas Caerdydd, yn enwedig ardaloedd Grangetown, Glan yr Afon a rhannau o Dreganna, Pontcanna a Pharc Fictoria.

Mae 454 o ddisgyblion yn yr ysgol, gan gynnwys 64 o blant yn y dosbarth meithrin, 32 yn y bore a'r un rhif yn y prynhawn: 390 disgybl sydd rhwng 4 – 11. Mae 14 o ddosbarthiadau yn ogystal â'r dosbarth meithrin.

Daw'r disgyblion o ardaloedd cymysg, rhai ardaloedd o fantais economaidd, eraill yn ardaloedd dan anfantais a'r gweddill yn ardaloedd heb fantais nac anfantais arbennig.

Mae tua 20% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Cymraeg lle mae o leiaf un o'r rhieni yn siarad Cymraeg a thua 80% o'r disgyblion yn dod o gartrefi di-Gymraeg. Hefyd mae 19% yn dod o gefndir ethnig. Ar hyn o bryd mae 7.3% o'r disgyblion yn cael prydau bwyd am ddim; mae'r ffigwr yn bell o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Mae 15% ar y gofrestr anghenion addysg arbennig (AAA), ac mae'r ffigwr hwn o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn nhymor yr haf 2005.

Penodwyd y pennaeth newydd yn mis Ebrill 2009.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2009-2010 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Pwll Coch oedd £2,889 sy'n cymharu gydag uchafswm o £14,067 ac isafswm o £2,787 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghaerdydd. Yr ysgol hon sydd â'r gyllideb fesul disgybl 98 uchaf o'r 102 ysgol gynradd yng Nghaerdydd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd bod:

- rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac yn cyflawni safonau da yn y medrau allweddol ar draws y cwricwlwm;
- yr ysgol yn llwyddo i ddatblygu dwyieithrwydd yn llwyddiannus o oed cynnar;
- yr addysgu'n gyffredinol dda ar draws yr ysgol; ac
- ethos deuluol, gofalgar sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd bod:

- y prosesau hunan-arfarnu yn effeithiol ac, o ganlyniad, mae'r ysgol yn adnabod yn gywir bron pob un o'i chryfderau a'i gwendidau;
- cynlluniau gwella yn arwain at weithredu effeithiol ac mae safonau yn y meysydd sydd angen sylw yn codi; ac
- arweinyddiaeth yr ysgol yn datblygu yn dda ar bob lefel ac yn rhoi sylw da i godi safonau.

## Argymhellion

Er mwyn gwella mae angen i'r ysgol:

A1 parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy galluog; a

A2 datblygu ymhellach rôl y corff llywodraethu fel cyfaill beirniadol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn paratoi cynllun gweithredu o fewn 45 diwrnod i amlinellu sut mae'n mynd i'r afael â'r materion hyn.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Cymedrol yw lefelau cyfartalog y plant wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol. Er hynny, mae'r rhan fwyaf yn cyflawni'r deilliannau a ddisgwylir am eu hoedran erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen.

Mae safonau rhan fwyaf o'r disgyblion yn y Gymraeg yn dda ac, mewn nifer o achosion, yn dda iawn. Maent yn datblygu yn gyflym i fod yn siaradwyr hyderus ac, wrth iddynt symud o un flwyddyn i'r llall, mae eu gallu i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau yn datblygu yn dda. Yn ogystal, mae eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr i gasglu a dehongli gwybodaeth yn datblygu'n llwyddiannus iawn.

Mae medrau darllen disgyblion yn datblygu'n dda trwy'r ysgol, ac mae rhan fwyaf yn darllen yn hyderus. Mae safon gwaith ysgrifennu rhan fwyaf yn dda ac mae cynnydd amlwg yn ansawdd ysgrifennu'r disgyblion hŷn eleni. Mae medrau Saesneg mwyafrif disgyblion Cyfnod Allweddol 2 (CA2) yn dda. Maent yn siarad yn hyderus ac yn darllen ystod o ddeunyddiau yn ystyrlon. Mae rhan fwyaf yn ysgrifennu'n estynedig mewn ystod o gyfryngau ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau meddwl rhan fwyaf o'r disgyblion a'u gallu i weithio'n annibynnol yn datblygu'n arbennig o dda. Ar draws yr ysgol mae disgyblion yn gwneud penderfyniadau synhwyrol ac yn gwybod beth i'w wneud wrth wynebu heriau newydd. Mae medrau rhifedd rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda a medrau cyfrifiadurol bron pob un ohonynt yn datblygu'n effeithiol iawn.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim ac sydd ag AAA yn cyflawni'n dda. Serch hynny, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyflawni i'w gallu llawn yn ôl tystiolaeth a welwyd o waith disgyblion, dadansoddiad o ddata'r ysgol ac arsylwadau gwersi.

Yn CA1, dros y pedair blynedd ddiwethaf mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 2) yn yr asesiadau statudol wedi bod yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu ym mathemateg a gwyddoniaeth, ac yn y Gymraeg heblaw am 2009. Roedd y dangosydd pynciau craidd (DPC), sef canran y disgyblion sy'n ennill o leiaf lefel 2 mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad, hefyd uwchben y cyfartaleddau dros yr un cyfnod. Pan gymherir canlyniadau CA1 yn 2010 gydag ysgolion eraill tebyg, gan ddefnyddio'r dangosydd cinio am ddim, roedd canlyniadau'r Gymraeg, gwyddoniaeth a'r DPC yn is na'r cyfartaledd, tra roedd canlyniadau mathemateg yn uwch na'r cyfartaledd. Roedd perfformiad y merched yn well na'r bechgyn yn y Gymraeg yn 2010. Yn y Gymraeg mae'r ganran sy'n cyrraedd lefel 3 neu uwch yn is na'r cyfraddau cymharol dros dwy flynedd; ym mathemateg mae'r ganran ar lefel 3 wedi cwympo'n sylweddol oddiar 2008 ac nawr mae o dan y tri cyfartaleddau; tra yng ngwyddoniaeth mae'r ganran wedi bod o dan y cyfaraleddau oddi ar 2008.

Yn CA2, roedd canran y disgyblion a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol, lleol a'r teulu yn 2009 a 2010. Roedd y DPC hefyd yn uwch na'r cyfartaleddau cymharol erbyn 2009 a 2010. Ond yn y Gymraeg amrywiodd y tueddiad yn y perfformiad tipyn dros yr un cyfnod ac yn 2007 a 2008 roedd y canran a gyrhaeddodd y lefel ddisgwyliedig o dan y cyfartaleddau. Fodd bynnag, bu gwelliant sylweddol yn 2009 ac yna gostyngodd o dan y cyfartaleddau cenedlaethol a lleol yn 2010. Yn 2010 roedd y ganran a gyrhaeddodd lefel uwch na'r disgwyl (lefel 5) yn y Gymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth o dan cyfartaleddau'r teulu, Cymru a lleol ac mae wedi amrywio dros y bedair blynedd ddiwethaf. Yn 2010, perfformiodd y merched yn well na'r bechgyn yn y DPC a'r pynciau craidd, heblaw am y Gymraeg.

Wrth gymharu canlyniadau CA2 gydag ysgolion tebyg ar draws Cymru o safbwynt y dangosydd cinio am ddim, mae canlyniadau'r ysgol yn amrywio tipyn dros y bedair blynedd. Roedd yn y trydydd chwartel ar gyfer y DPC, Cymraeg a mathemateg yn 2010 ac yn y pedwerydd chwartel ar gyfer Saesneg a gwyddoniaeth. Mae Saesneg a gwyddoniaeth wedi bod yn y pedwerydd chwartel am dair o'r bedair blynedd ddiwethaf.

**Lles: Da**

Mae gan rhan fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gref fod bwyta'n iach a ffitrwydd yn cyfrannu at gorff a meddwl iach. Maent yn dangos parch mawr tuag at ei gilydd ac yn falch iawn o'u hysgol ac o'r gymuned glos a geir ynddi. Mae agwedd y disgyblion at ddysgu yn dda a maent yn cymryd cyfrifoldeb brwdfrydig ac effeithiol am eu dysgu eu hunain, ac yn cefnogi ei gilydd yn arbennig o dda yn eu gwersi a'u gweithgareddau.

Roedd presenoldeb am y flwyddyn ysgol 2009-2010 yn 94.7%, sef ffigwr sy'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol a lleol. Roedd yr absenoldeb heb awdurdod am y cyfnod hwn hefyd yn well na'r cyfartaleddau. Mae prydlondeb wrth gyrraedd yr ysgol ac i'r sesiynau dysgu yn dda ar y cyfan.

Mae ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda. Maent yn gwrtais, yn groesawgar ac yn awyddus iawn i sôn am rinweddau eu hysgol. Ni fu gwaharddiad o unrhyw fath ers nifer fawr o flynyddoedd.

Mae'r cyngor ysgol yn gryf gyda chyfrifoldebau'r aelodau yn glir. Mae'r aelodau yn weithgar a chyfrifol, ac yn hyderus bod nifer o argymhellion y cyngor yn cael eu hystyried a'u gweithredu.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cynlluniau gwaith yn gynhwysfawr ac yn briodol i oedran a gallu'r disgyblion. Cynigir cyfleoedd da iddynt chwarae rhan weithredol yn y broses o gynllunio'r ddarpariaeth trwy ddewis trywyddau thema a threfnu digwyddiadau.

Cynllunir y ddarpariaeth sgiliau i gydfynd â dulliau'r Cyfnod Sylfaen. Caiff pob thema ei rhannu rhwng y meysydd dysgu a rhoddir sylw dyledus i'r sgiliau cyffredinol a

sgiliau'r pwnc. Mae darpariaeth eang o brofiadau dysgu yn atgyfnerthu anghenion rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda. Trwy gynllunio pwrpasol ar draws yr holl feysydd, llwyddir i ddatblygu medrau yn gyson dda ar draws yr ysgol.

Cynllunnir yn fwriadus ac yn effeithol iawn ar gyfer datblygu'r Gymraeg gan sicrhau dwyieithrwydd holl ddisgyblion yr ysgol. Rhoddir lle blaenllaw i ddiwylliant lleol ac i'r Cwricwlwm Cymreig sy'n adlewyrchu'n bositif iawn ar holl fywyd a gwaith yr ysgol.

Derbyniodd yr ysgol faner Ysgol Werdd ac mae hwn yn hyrwyddo prosesau fel ailgylchu, arbed ynni a bwyta'n iach yn dra llwyddiannus. Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dinasyddiaeth fyd-eang amrywiol trwy weithgarwch daearyddiaeth a chysylltiadau gwahanol.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu'n gyson dda gyda rhai gwersi yn dangos rhagoriaeth. Lle mae'r addysgu'n dda, mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir ac yn ysgogi disgyblion yn effeithiol. Mae cyflymder da i'r gwersi a holi treiddgar yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol.

Mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel. Er hynny, ar adegau, anghyson yw'r arfer o wahaniaethu'n briodol i ymateb i ofynion disgyblion mwy galluog ac nid yw'r gwaith a osodir bob amser yn ddigon heriol i sicrhau eu bod yn datblygu i'w llawn potensial.

Mae'r sesiynau a addysgir wedi eu cynllunio'n drwyadl ac mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol. Defnyddir adnoddau'r ysgol yn effeithiol i gefnogi'r dysgu ac fe reolir ymddygiad disgyblion yn effeithiol.

Mae'r holl athrawon yn cynnig adborth manwl, adeiladol i ddisgyblion, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r system tracio effeithiol yn sicrhau fod athrawon yn olrhain cynnydd disgyblion ac yn ymyrryd pan fo angen. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn llwyddiannus ac yn hybu'r disgyblion i asesu eu perfformiad eu hunain ac eraill mewn modd adeiladol.

Mae'r ysgol yn cofnodi cynnydd mewn safonau a lles disgyblion yn glir a thrwyadl. Sicrha'r trefniadau yma adnabyddiaeth dda o anghenion rhan fwyaf y disgyblion ac maent hefyd yn gymorth i adrodd yn effeithiol i rieni am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ddarpariaeth o fewn yr ysgol ac yn allgyrsiol o ran datblygu agweddau iach a ffitrwydd yn elfennau effeithiol. Mae barn rhieni a disgyblion yn cadarnhau fod gan yr ysgol drefniadau effeithiol iawn ar gyfer sicrhau diogelwch a lles emosiynol y disgyblion. Mae'r trefniadau hefyd yn sicrhau fod datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn dda.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o wybodaeth i'r disgyblion a'u rhieni. Pan fo'n briodol mae'r ysgol yn annog y disgyblion a'u rhieni i dderbyn arweiniad gan asiantaethau allanol, arbenigol.

Mae gan yr ysgol bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu'r disgyblion. Ceir trefniadau a systemau trwyadl ar gyfer adnabod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r profiadau dysgu a ddarperir iddynt yn eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni safonau priodol. Mae'r cymorth yn cael ei gydlynu'n effeithiol a defnyddir gweithdrefnau tracio yn dda i dargedu cymorth ychwanegol a monitro ei effaith. Mae'r ysgol yn cynnal adolygiadau cynnydd rheolaidd ac yn ymgynghori'n dda â rhieni a gofalwyr.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned glos gan roi parch i bob aelod, boed yn athro neu ddisgybl. Mae'r disgyblion a'r staff yn cyfarch ei gilydd yn gwrtais ac mae teimlad cryf o foddhad a hapusrwydd yn nodwedd amlwg iawn. Mae pob disgybl yn ddiwahân yn cael ei dderbyn a'i gynnwys yn holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymroi'n weithgar i godi arian at achosion da yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu effeithiol sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion. Mae ganddi adnoddau a gofod digonol ar gyfer nifer y disgyblion ac mae'r mannau addysgu mewnol a'r gofod allanol yn cael eu cadw'n daclus iawn. Mae'r disgyblion a'r athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol iawn o'r holl ofod ac o'r adnoddau.

Mae gofodau addysgu'r adeilad a'r coridorau wedi eu haddurno'n bwrpasol i alluogi disgyblion weithredu mewn ffyrdd gwahanol. Mae hyn yn cynnwys amgylchedd dawel ar gyfer gwaith unigol, ac ardaloedd penodol ar gyfer gweithgareddau ymarferol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol ac mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno'n llwyddiannus iawn i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Mewn ffordd dawel, didwyll a phroffesiynol, mae'n rhoi cyfeiriad strategol cwbl eglur i fywyd a gwaith yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles y disgyblion. Mae'r pennaeth, y dirprwy a'r staff yn cydweithio'n effeithiol fel tîm.

Mae gan yr holl staff gyfrifoldebau a disgrifiadau swyddi clir sy'n cael eu cyflawni'n gydwybodol iawn. Mae'r cydlynwyr cwricwlaidd yn cynnig arweiniad clir ynglŷn â'u meysydd cyfrifoldeb ac yn cyfrannu'n effeithiol at y broses hunan arfarnu.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyflawni eu rwymedigaethau statudol yn effeithiol. Maent yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn gynyddol ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Maent yn dechrau defnyddio data yn fwy effeithiol i adnabod cryfderau ac ardaloedd i'w gwella ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mynychant yr ysgol fel

unigolion o bryd i'w gilydd, ond llai datblygedig yw eu rôl yn monitro'r ddarpariaeth a herio'r ysgol fel ffrind beirniadol.

Llwydda'r ysgol i dalu sylw dyledus i nifer o flaenoriaethau cyfredol. Mae'n gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a nifer o strategaethau datblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu yn llwyddiannus. Mae'r ysgol hefyd wedi ymrwymo i wahanol gynlluniau er mwyn hybu safonau, lles a ffitrwydd disgyblion ac mae yn cydnabod pwysigrwydd llais y disgybl ymhob elfen o fywyd yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu o ansawdd da ac mae'n adnabod yn glir y mwyafrif o'r ardaloedd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Sicrheir bod pob aelod o'r staff yn rhan o'r broses hon. Anfonir holiaduron at rieni, disgyblion a llywodraethwyr a dadansoddir yr ymatebion cyn trosglwyddo'r canlyniadau i rieni ar wefan yr ysgol. Mae deilliannau'r broses hunan-arfarnu yn dylanwadu'n briodol ar flaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r broses hunan-arfarnu yn cynnwys arsylwi gwersi, holi disgyblion ac edrych ar waith y disgyblion.

Cynhyrchir cynllun datblygu ysgol, sydd o ansawdd da, ar sail arfarniad o'r cynllun blaenorol a'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg o fewn y broses hunan-arfarnu. Mae'r blaenoriaethau wedi eu costio'n briodol, y person â chyfrifoldeb wedi ei enwi, yr amser gweithredu wedi ei nodi'n glir ynghyd â'r meini prawf llwyddiant.

Mae'r athrawon yn gynwysedig mewn rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol. Defnyddir 'Moodle' ar gyfer cynlluniau a pholisiau er mwyn rhannu arfer dda a sicrhau cysondeb yn yr ysgol. Yn fewnol, cynhelir cyfarfodydd i drafod a rhannu arferion diweddaraf ym maes dysgu ac addysgu. Yn ehangach gweithir yn agos ag ysgolion y clwstwr lleol ar amryw o gyweithiau. Mae'r partneriaethau hyn yn dylanwadu'n bositif ar gynllunio ac ar ddatblygu'r arferion diweddaraf mewn addysgu. Mae gan yr ysgol drefn briodol o reoli perfformiad sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Mae'r ysgol eisoes wedi creu cyswllt cychwynnol ag ysgolion o fewn y teulu o ysgolion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol ystod briodol ac effeithiol o bartneriaid strategol. Mae'r partneriaethau hyn yn cefnogi'r ysgol i sicrhau deilliannau da ar gyfer dysgu a lles y disgyblion.

Gwna amryw eraill o ymwelwyr o'r gymuned leol gyfraniad da i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r gymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn gwneud cyfraniad effeithiol tuag at gefnogi nifer o elfennau yn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda ag amryw o ymwelwyr a gwasanaethau i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion. Mae trefniadau effeithiol hefyd yn bodoli ar gyfer safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar y cyd.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol ddigon o staff cymwys i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Mae athrawon a staff cymorth yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac maent wedi cael eu lleoli'n dda i fodloni anghenion ysgol sy'n addysgu dwy iaith. Mae'r athrawon yn defnyddio eu hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n effeithiol.

Mae gwariant yn y cynllun datblygu ysgol yn cael ei nodi'n ofalus, yn arbennig ar gyfer staffio. Mae'r pennaeth yn archwilio y gyllideb yn gyson, ac mae pwyllgor cyllid y corff llywodraethol yn cwrdd yn gyson i adolygu'r sefyllfa. Mae arweinwyr yr ysgol yn dyrannu cyllid yn effeithiol i fodloni blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

Yng nghyd-destun y deilliannau mae'r ysgol yn sicrhau ar gyfer disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Dychwelwyd 79 o holiaduron y rhieni ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fodlon neu'n fodlon iawn â'r ysgol yn gyffredinol. Dywed pob un bod eu plant wedi derbyn cymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuasant yn yr ysgol a bron pob un bod eu plant yn teimlo'n ddiogel yno. Mae bron pob un hefyd yn credu fod yr addysgu'n dda a bod staff yn disgwyl i'w plant weithio'n galed. Crêd y rhan fwyaf fod yr ysgol yn annog eu plant i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn credu bod gwaith cartref yn briodol ac mae llawer yn credu eu bod yn derbyn gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant. Mae'r rhan fwyaf yn datgan bod yr ysgol yn helpu eu plant i aeddfedu, i ysgwyddo cyfrifoldeb ac yn rhoi cymorth ychwanegol priodol iddynt mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. Teimla llawer o rieni eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. Mae'r rhan fwyaf yn datgan bod amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau, a bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

Mae llawer yn teimlo bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf. Teimla'r rhan fwyaf yn gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, i wneud awgrymiadau neu nodi problem; a chredant bod staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. Crêd y rhan fwyaf bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod y disgyblion yn gyffredinol yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol.

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Cwblhaodd 100 o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yr holiadur a siaradodd y tîm ag eraill yn ystod yr arolygiad. Mae bron pob un yn dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach. Mae'r rhan fwyaf yn gwybod gyda phwy y gallant siarad os ydynt yn poeni neu os ydynt yn gweld eu gwaith yn anodd. Crêd llawer bod digon o adnoddau ar gael yn yr ysgol. Mae pob un o'r disgyblion o'r farn bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae'r rhan fwyaf hefyd yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Dywed llawer bod yr ysgol yn ymdrin â bwlio'n dda. Mae 26% yn teimlo bod ymddygiad plant yn amharu ar eu gallu i wneud eu gwaith a 38% yn anghytuno bod bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

## Atodiad 2

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Dr David Gareth Evans | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Owenna Davies | Arolygydd Tîm |
| Mr Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Terry Williams | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mrs Meinir Howells | Enwebai'r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |